# GWERS 4 - O, 'NA GONC! – MWYNHAU CYMERIADAU

**Nod Gwers 4:** Deall cymeriadu trwy berfformio a gweithgaredd creadigol, gan weithio gydag eraill.

Angen adnodd testun darn o ddrama *Dan y Wenallt*

## Llafaredd

- cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol
- ymateb i farn eraill yn gadarnhaol ac yn briodol o gael eu herio

## Darllen

- defnyddio'u gwybodaeth am y canlynol:
  - tarddiadau a theuluoedd geiriau
  - cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan
  - cynnwys a chyd-destun

  i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan

## Ysgrifennu

- addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi
- wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben.

## RHAN 1

Rhoi rhannau allan i aelodau'r dosbarth mewn dau grŵp. Trafod ymlaen llaw beth sy'n gwneud darllen dramatig da. Rhoi cyfle i'r grwpiau ddarllen ac ymarfer a mireinio. Clywed y perfformiadau gerbron y dosbarth.

## RHAN 2

Tasg 1 ar y daflen – gweithio mewn parau. Gwirio'r gwaith fel dosbarth.

## RHAN 3

Gwaith grŵp creadigol - Tasg 2.

TASG GREADIGOL /YMESTYNNOL